# Canllawiau Lleol CCS Conwy

Fersiwn 1.0 - Rhagfyr 2025

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy**



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

This document is also available in English.

**I’w ddarllen ar y cyd â phrif Ganllawiau Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) Gogledd Cymru ac atodiadau eraill.**

**Cynhyrchwyd y cyhoeddiad hwn gan:**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (CCS Conwy)

**Prif Awduron:**

Craig William Jones MSc, BSc (Hons)

Uwch Swyddog Amgylcheddol: Perygl Llifogydd a Chaniatâd.

**Pwrpas y Ddogfen**

Datblygwyd y ddogfen hon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn darparu canllawiau i bawb sydd ynghlwm â’r broses o ddylunio, datblygu, gweithredu a chynnal a chadw nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) o fewn awdurdodaeth Sir Conwy.

Ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy’n derbyn unrhyw atebolrwydd am gostau, atebolrwydd na cholledion o ganlyniad i’r defnydd o, neu’r ddibyniaeth ar, gynnwys y canllawiau hyn.

| Adolygiad | Dyddiad | Disgrifiad | Awdur | Gwiriwyd | Cymeradwywyd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | December 2025 | Cyhoeddwyd | C.Jones | O.Conry | O.Conry |

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ..... **1**
**2. Pwy yw'r CCS yng Nghonwy?** ..... **1**
Perygl Llifogydd ac Isadeiledd ..... 1
Mannau Agored ..... 1
Gwasanaethau Cyfreithiol ..... 2
Yr Awdurdod Cynllunio ..... 2
Rheoli Adeiladu ..... 2
Sut i gysylltu â CCS Conwy? ..... 2
**3. Ymgysylltiad cynnar** ..... **3**
**4. Gwasanaeth Cyn Ymgeisio CCS** ..... **3**
Adolygiad Technegol ac Adborth Cyn Ymgeisio ..... 3
Cyfarfod Dilynol (Dewisol) ..... 4
**5. Cais Llawn** ..... **4**
Dilysu ..... 5
Ymgynghoriad Statudol ..... 5
Ymgynghoriad Statudol ..... 6
**6. Gwybodaeth a Gofynion Dylunio** ..... **7**
Cynllun Dalgylch neu Ddisgrifiad o Batrwm Draenio Dŵr Wyneb Presennol y Safle ..... 7
Cyfrifiadau ar gyfer Rhyng-gipio ..... 8
Cyfrifiadau ar gyfer Trin Dŵr Wyneb ..... 10
Asesu Llif Gormodiant a'r manylion cysylltiedig ..... 10
**7. Paramedrau Dylunio SDC** ..... **11**
Cyfrifo Cyfraddau Dŵr Ffo Presennol ac Arfaethedig ..... 11
Amcangyfrif Dŵr Glaw (gan ddefnyddio FEH neu FSR) ..... 12
**8. Mabwysiadu a Chynnal a Chadw** ..... **12**
Amodau ar gyfer Mabwysiadu ..... 12
Cytundeb Cyfreithiol ..... 13
Symiau Gohiriedig ..... 14
Eithriadau Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ..... 15
Bondiau Diffyg Perfformiad ..... 15
**9. Datblygiadau Graddol** ..... **16**
**10. Archwiliadau** ..... **16**
**11. Gorfodi** ..... **17**
**Atodiad A - Enghraifft o Swm Gohiriedig** ..... **18**

## Ffigurau

Ffigur 6.1: Enghraifft o Gyfrifiad Rhyng-gipio
Ffigur 7.1: Adran G2.30 Safonau Statudol LlC
Ffigur 7.2: Adran 24.2.2 y Llawlyfr SDC
Ffigur 8.1: Cynllun Mabwysiadu SDC Enghreifftiol

## Tablau

Tabl 4.1: Ffioedd Cyngor Cyn Ymgeisio CCS Conwy
Tabl 6.1: Dogfennau Gofynnol ar gyfer Cais Llawn

## Atodiadau

Atodiad A: Enghraifft o Swm Gohiriedig

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, a ddaeth i rym yng Nghymru ym mis Ionawr 2019, yn sefydlu gofynion ar gyfer defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) mewn datblygiadau newydd. Mae'n nodi bod yn rhaid i unrhyw ddatblygiad sy'n cynnwys mwy nag un annedd ac arwynebedd o 100 metr sgwâr neu fwy gynnwys SDC. Dylid dylunio ac adeiladu'r systemau hyn yn unol â safonau statudol ac mae'n rhaid derbyn cymeradwyaeth gan Gyrff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (CCS). Yn ogystal â hynny, mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi dyletswydd ar y CCS i fabwysiadu a chynnal SDC cymeradwy cyn belled bod amodau penodol yn cael eu bodloni. Mewn egwyddor, mae hyn yn golygu fod awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoli'r systemau hyn, a sicrhau eu bod yn ymarferol yn hirdymor a'u bod wedi'u hintegreiddio i isadeiledd cymunedol.

1.2 Technegau ecogyfeillgar a luniwyd i reoli llif dŵr wyneb yw SDC. Mae'r dull SDC yn anelu at ddynwared systemau draenio naturiol, drwy reoli dŵr wyneb ffo mor agos i'r arwyneb a'r ffynhonnell â phosibl, gan reoli'r llif a darparu ystod o fuddion ychwanegol. Mae'r systemau hyn yn helpu i wella ansawdd dŵr drwy hidlo naturiol a gwella bioamrywiaeth gan greu mannau gwyrdd a fydd yn cefnogi bywyd gwyllt ac yn cynnig amgylcheddau hardd a chroesawgar. Mae'r dull hwn yn cyferbynnu â thechnegau draenio pibellau tanddaearol traddodiadol sy'n cyfeirio dŵr glaw i ffwrdd o eiddo cyn gynted â phosibl.

1.3 Mae Canllawiau Lleol CCS Conwy'n benodol i rôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) fel CCS. Er bod dulliau CBSC yn debyg i ddulliau awdurdodau lleol eraill, mae amrywiadau'n gallu codi yn sgil gweithdrefnau gweithredol gwahanol. Felly, mae'n bwysig ceisio cyngor penodol gan yr Awdurdod CCS perthnasol. Mae'r ddogfen yn cynnwys agweddau unigryw o brosesau CCS Conwy a dylid ei darllen ochr yn ochr â Chanllawiau CCS Gogledd Cymru[1].

# 2. Pwy yw'r CCS yng Nghonwy?

## Perygl Llifogydd ac Isadeiledd

2.1 Y tîm Perygl Llifogydd ac Isadeiledd o fewn adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau (AFfCh) yw'r prif bwynt cyswllt sy'n prosesu ac yn cymeradwyo Ceisiadau SDC. Mae'r tîm Perygl Llifogydd ac Isadeiledd yn gweithio'n agos gydag adrannau eraill CBSC i sicrhau cydweithrediad ar draws adrannau, rhannu gwybodaeth, a lle bo modd, darpariaeth gwasanaeth gydlynol.

## Mannau Agored

2.2 Mae'r tîm Mannau Agored o fewn AFfCh yn chwarae rôl allweddol yn cymeradwyo unrhyw nodweddion SDC sy'n gysylltiedig â system ddraenio priffyrdd bresennol. Maent yn ymgynghorai statudol ym mhroses ymgeisio SDC, yn sgil effaith bosibl llif draeniad dŵr wyneb ar eu hasedau a'u gweithgarwch rheoleiddio.

2.3 Fel arfer, caiff systemau draenio priffyrdd eu dylunio a'u hadeiladu i dderbyn llif o'r briffordd yn unig, felly byddai angen tystiolaeth o unrhyw gapasiti ychwanegol ar gyfer llif datblygiadau preifat. Lle ystyrir cysylltiad posibl â draen priffordd, anogir datblygwyr i geisio cyngor penodol gan y tîm Mannau Agored.

[1] Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd Gogledd Cymru, *Canllawiau SDC Gogledd Cymru* (2025)

2.4 Mae’r tîm Mannau Agored yn barod i weithredu SDC ar gyfer draenio priffyrdd, cyn belled â’u bod yn gweithio’n effeithiol ac yn hawdd i’w cynnal a’u cadw.

### Gwasanaethau Cyfreithiol

2.5 Nid yw cymeradwyaeth dechnegol o ddyluniad SDC yn cynrychioli cymeradwyaeth lawn gan y CCS, a bydd angen cytundeb cyfreithiol ar gyfer SDC mabwysiedig. Dylai ymgeiswyr gadarnhau p’un a fyddai angen cytundeb cyfreithiol drwy ymgysylltiad cynnar neu broses cyn ymgeisio gyda CCS Conwy cyn cyflwyno Cais Llawn.

### Yr Awdurdod Cynllunio

2.6 O 31 Mawrth 2025, mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi diweddaru eu cyngor cynllunio drwy gyflwyno Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN 15) newydd. Mae’r nodyn hwn yn cyflwyno cyfrifoldebau ychwanegol ar Awdurdodau Cynllunio a CCS yng Nghymru mewn perthynas â chymeradwyo strategaethau draenio. Lle ceisir caniatâd cynllunio cyn derbyn cymeradwyaeth gan y CCS, mae bellach yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu Datganiad Draenio fel rhan o’u ceisiadau cynllunio. [2]

2.7 Mae gofyn i awdurdodau cynllunio rannu’r Datganiad Draenio â’r CCS, gan roi amser i’r CCS ddarparu adborth cyn penderfynu ar y cais cynllunio. Mae gofyn i Awdurdodau Cynllunio a CCS werthuso’r trefniadau draenio a amlinellir mewn Datganiadau Draenio i sicrhau bod modd cyflawni systemau draenio dŵr wyneb priodol sy’n bodloni’r Safonau SDC Cenedlaethol ar gyfer y datblygiad. [3]

2.8 Wrth ddarparu ein hymateb fel y CCS, rydym yn ymrwymo i gefnogi’r broses gynllunio mewn modd amserol ac adeiladol. Ein nod yw peidio ag oedi nag amharu ar geisiadau cynllunio, ond yn hytrach, sicrhau fod ceisiadau draenio dŵr wyneb yn gadarn a’u bod wedi’u halinio â’r Safonau SDC Cenedlaethol[3]. Fel arfer, byddwn yn canolbwyntio’n bennaf ar yr arllwysfa dŵr wyneb arfaethedig, gan mai dyma’n aml iawn yw’r elfen bwysicaf o ran pennu dichonolrwydd draenio cynaliadwy. Byddwn hefyd yn ystyried elfennau eraill o’r strategaeth ddraenio a allai arwain at sylwadau, yn arbennig lle gallent effeithio ar hyfywedd datblygiad pe na baent yn cael eu hystyried ochr yn ochr â’r broses gynllunio.

### Rheoli Adeiladu

2.9 Mae CCS Conwy’n cydweithio â Rheoli Adeiladau CBSC i sicrhau fod systemau draenio wedi’u llunio a’u hadeiladu i fodloni’r safonau gofynnol.

### Sut i gysylltu â CCS Conwy?

2.10 Y prif bwynt cyswllt o fewn CCS Conwy yw’r Uwch Swyddog Amgylcheddol (Perygl Llifogydd a Chaniatâd). Gellir cysylltu â hwy dros e-bost ar SAB@conwy.gov.uk neu dros y ffôn ar 01492 577354.

[2] *Llywodraeth Cymru, Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 Polisi Cynllunio Cymru: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol (2025)*

[3] *Llywodraeth Cymru, Safonau Statudol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy - dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw systemau draenio dŵr wyneb* (2018)

# 3. Ymgysylltiad cynnar

3.1 Mae CCS Conwy'n cynnig gwasanaeth ymgysylltiad cynnar am ddim i ymgeiswyr. Mae hyn yn cynnwys cyfarfod neu drafodaeth dros y ffôn (hyd at 1 awr) i drafod egwyddorion a gofynion ehangach Safonau LlC[3] a'r perthnasedd posibl ar gyfer datblygiad arfaethedig. Anogir ymgeiswyr gyda cheisiadau datblygu cymharol fychan yn benodol i geisio'r cyngor ymgysylltiad cynnar am ddim hwn. Weithiau, gall hyn fod yn ddigon i gadarnhau'r manylion sy'n ofynnol ar gyfer Cais Llawn yn ymwneud â datblygiad o'r fath heb fod angen cyngor Cyn Ymgeisio pellach.

3.2 Argymhellir ymgynghori â CCS Conwy cyn gynted â phosibl wrth gynllunio datblygiad, er mwyn deall ac ystyried elfennau dylunio penodol i'r safle sy'n ofynnol er mwyn bodloni'r safonau statudol[3], a llywio'r dull uwchgynllunio neu ddatblygu cynllun y safle.

# 4. Gwasanaeth Cyn Ymgeisio CCS

4.1 Mae gwasanaeth Cyn Ymgeisio CCS Conwy'n darparu adborth wedi'i deilwra penodol i Systemau Draenio Cynaliadwy. Mae'n darparu cyfle cynnar i wirio bod y dyluniad draenio bwriedig neu amlinellol yn cydymffurfio â Safonau LlC[3] cyn symud ymlaen i'r cam dylunio manwl a'r Cais Llawn.

4.2 Codir ffi o 35% o'r ffioedd Cais Llawn ar gyfer cyngor Cyn Ymgeisio, sy'n seiliedig ar faint y safle/datblygiad, gweler **Tabl 5.1.** Er mwyn ceisio cyngor Cyn Ymgeisio gan CCS Conwy, dylai datblygwyr gwblhau ac anfon ffurflen Cyn Ymgeisio ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol at SAB@conwy.gov.uk. Dylai ymgeiswyr hefyd ddarparu manylion anfonebu, gan gynnwys cyfeiriad danfon ac e-bost.

4.3 Ar ôl derbyn cais, bydd swyddog o CCS Conwy'n cysylltu â chi o fewn deg diwrnod gwaith gyda chyfeirnod achos, gan gadarnhau'r ffi cyn ymgeisio cysylltiedig a gofyn am fanylion anfonebu, os nad yw'r rhain eisoes wedi'u darparu. O'r diwrnod gwaith cyntaf yn dilyn hynny, bydd CCS Conwy'n darparu Adborth Technegol Cyn Ymgeisio o fewn 4 wythnos. Mae gwasanaeth cyngor Cyn Ymgeisio CCS Conwy'n cynnwys dau gam.

### Adolygiad Technegol ac Adborth Cyn Ymgeisio

4.4 Darperir adborth ffurfiol mewn perthynas â chydymffurfiaeth y cynllun draenio arfaethedig gyda chwe safon LlC[3], a'r egwyddorion y mae'r rhain yn seiliedig arnynt o fewn 4 wythnos ar ôl derbyn y dogfennau Cyn Ymgeisio. Gellir ond darparu adborth ar bob un o safonau LlC[3] lle derbyniwyd gwybodaeth benodol sy'n berthnasol i'r safon honno. Po fwyaf o wybodaeth a ddarperir fel rhan o'r dogfennau cyn ymgeisio, y lleiaf yw'r risg o broblemau'n codi â'r Cais Llawn dilynol a'r lleiaf o ymdrech fydd ei angen ar y cam hwnnw.

4.5 Mae'n bosibl na fydd gwybodaeth ynghylch pob un o'r chwech o safonau LlC[3] ar gael ar y cam Cyn Ymgeisio, ond mae'r CCS yn annog yr ymgeiswyr i gyflwyno gymaint o fanylion â phosibl er mwyn elwa gymaint â phosibl o'r broses adolygu ac adborth Cyn Ymgeisio.

### Cyfarfod Dilynol (Dewisol)

4.6 Gellir trefnu cyfarfod dilynol naill ai ar-lein neu yn swyddfeydd CBSC yng Nghoed Pella, Bae Colwyn. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r datblygwr siarad drwy'r Adolygiad a'r Adborth Technegol Cyn Ymgeisio gyda swyddog cymeradwyo o'r CCS. Nod y cyfarfod yw helpu ymgeiswyr i ddeall y wybodaeth benodol sydd ei hangen i brofi cydymffurfiaeth y cynllun SDC â Safonau LlC[3].

*Tabl 4.1: Ffioedd Cyngor Cyn Ymgeisio CCS Conwy*

| Gwasanaeth | Maint Safle'r Cais | Ffi |
|---|---|---|
| Cyngor Ymgysylltu Cynnar | Pob un | Am ddim |
| Cyngor Cyn Ymgeisio a chyfarfod dilynol dewisol | 0 – 0.1ha (y ffi leiaf) | £147 |
| | 0.5 ha | £245 |
| | 1.0 ha | £333 |
| | 5.0 ha | £613 |
| | 10.0 ha | £788 |
| | 66.0 ha (y ffi uchaf) | £2748 |
| Gwasanaethau Ychwanegol Cyngor Cyn Ymgeisio<br><br>Codir ffi ar gyfradd fesul awr. Gall gwasanaethau gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, mynychu cyfarfodydd ac ymweliadau safle ychwanegol. | Amherthnasol | £51 yr awr |

**Yn gywir ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon (Medi 2025). Bydd yn destun adolygiad blynyddol a chynnydd posibl yn y dyfodol.*

# 5. Cais Llawn

5.1 Cais Llawn yw'r unig ffordd o geisio cymeradwyaeth gan y CCS. Mae Paragraff 7(1) Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gwahardd unrhyw waith adeiladu sydd â goblygiadau draenio rhag dechrau oni bai bod CCS Conwy wedi cymeradwyo'r system ddraenio. Mae gwaith adeiladu'n golygu unrhyw beth a wneir drwy, mewn cysylltiad â, neu wrth baratoi i greu adeilad neu strwythur arall.

5.2 Ni ddylid cyflwyno cais llawn nes bydd yr ymgeisydd yn hollol hyderus bod y cynllun yn derfynol a bod modd darparu'r holl wybodaeth ategol angenrheidiol i brofi cydymffurfiaeth â Safonau LlC[3]. Os oes elfennau o'r dyluniad sy'n ymofyn mireinio pellach, neu os oes manylion ar goll, dylid ceisio cyngor Cyn Ymgeisio yn hytrach na chyflwyno Cais Llawn.

5.3 Er mwyn ceisio cyngor Cais Llawn gan CCS Conwy, dylai datblygwyr gwblhau ac anfon ffurflen Cais Llawn ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol at SAB@conwy.gov.uk. Ar ôl derbyn cais, bydd swyddog o CCS Conwy'n cysylltu â'r ymgeisydd o fewn deg diwrnod gwaith i gadarnhau'r ffi gysylltiedig, darparu cyfeirnod achos, a gofyn am fanylion anfonebu, os nad yw'r rhain eisoes wedi'u darparu.

5.4 Mae ffioedd ceisiadau llawn yn cael eu diffinio'n genedlaethol yng Nghanllawiau Statudol LlC ac yn dibynnu ar faint yr ardal adeiladu. Gall y ffigurau hyn newid yn y dyfodol felly dylid cyfeirio at ganllawiau diweddaraf LlC.[4] Ar amser cyhoeddi'r canllaw hwn, roedd ffioedd Cais Llawn fel a ganlyn:[4]

[4]*Llywodraeth Cymru, Canllawiau Statudol Draenio Cynaliadwy (2019)*

- £350 fesul cais, ac (hyd at uchafswm o £7,500):
    - ar gyfer pob 0.1 ha hyd at 0.5 ha - £70
    - ar gyfer pob 0.1 ha rhwng 0.5 ha a 1 ha - £50
    - ar gyfer pob 0.1 ha rhwng 1 ha a 5 ha - £20
    - ar gyfer pob 0.1 ha uwchben 5 ha - £10

5.5 Mae gan CCS Conwy Gyfrifiannell Ffioedd Ymgeisio sydd ar gael ar gais.

## Dilysu

5.6 Cyn y gellir dechrau Asesiad Lawn, mae'n rhaid i CCS Conwy ddilysu pob cais am SDC i sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion technegol a gweinyddol. Mae'r cam dilysu'n cadarnhau fod pob dogfen, cynllun a ffi gofynnol wedi cael eu cyflwyno, a bod y cais bellach wedi'i gwblhau ac yn barod ar gyfer adolygiad ffurfiol. Mae nodi gwybodaeth sydd ar goll neu'n anghywir yn helpu i osgoi oedi yn nes ymlaen yn y broses.

5.7 Ni all CCS Conwy symud ymlaen i asesu p'un a yw system ddraenio arfaethedig yn cydymffurfio â'r Safonau Statudol[3] nes bydd cais wedi cael ei ddilysu'n llwyddiannus.

5.8 Ar ôl derbyn Cais Llawn, bydd CCS Conwy'n cynnal gwiriad dilysu. Dylid cyflwyno'r dogfennau canlynol fel isafswm er mwyn i'r cais gael ei ystyried yn ddilys:

- Manylion cyswllt ar gyfer anfonebu, gan gynnwys cyfeiriad danfon ac e-bost;
- Ffurflen wedi'i chwblhau ar gyfer Cais Llawn;
- Cynlluniau Safle Presennol ac Arfaethedig yn dangos yr ardaloedd hydraidd ac anhydraidd;
- Cynigion dylunio SDC manwl; gan gynnwys manylion adeiladu ar gyfer holl nodweddion SDC;
- Canlyniadau Model Draenio Dŵr Wyneb a Chyfrifiadau Dŵr Ffo;
- Cynllun Cynnal a Chadw Asedau SDC cynhwysol; a
- Chadarnhad o gymeradwyaeth i gysylltu ag asedau trydydd parti.

5.9 Anogir ymgeiswyr i gyfeirio at y Gofynion Gwybodaeth a Dylunio a amlinellir yn **Adran 6** o'r ddogfen ganllawiau hon. Er nad oes angen pob eitem a restrir yn **Adran 6** ar gyfer y broses ddilysu, gall methiant i ddarparu'r wybodaeth berthnasol arwain at wrthod y Cais Llawn yn ystod y cam asesu.

5.10 O'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl dilysu, bydd CCS Conwy'n gwneud eu penderfyniad (i gymeradwyo neu beidio) o fewn 7 wythnos (neu 12 wythnos lle bo'r cais yn destun Asesiad o Effaith Amgylcheddol dan ddeddfwriaeth Cynllunio Gwlad a Thref). Mewn rhai amgylchiadau, gall CCS Conwy wneud cais i gytuno i ymestyn y cyfnod cymeradwyo.

5.11 Yn debyg iawn i'r broses Cyn Ymgeisio, bydd Cais Llawn a gyflwynir i CCS Conwy'n destun Adolygiad ac Adborth Technegol, gyda chyfarfod dilynol dewisol.

## Ymgynghoriad Statudol

5.12 Lle bo cynllun draenio arfaethedig yn cynnwys arllwys i asedau trydydd parti, megis y rhai mae'r Ymgymerwr Carthffosiaeth neu'r Awdurdod Priffyrdd yn berchen arnynt, bydd ar CCS Conwy angen cadarnhad ffurfiol o'r cynigion draenio dŵr wyneb gan yr awdurdod perthnasol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau fod lleoliad yr arllwysfa arfaethedig, y capasiti a'r trefniadau cysylltu'n dechnegol hyfyw a derbyniol.

5.13 Yn ogystal â hynny, dylid ystyried presenoldeb a'r effaith ar wasanaethau tanddaearol presennol. Dylid cynllunio cynigion draenio i osgoi gwrthdaro ag isadeiledd presennol, a bydd CCS Conwy'n ymgynghori â Dŵr Cymru a chyrff perthnasol eraill i asesu unrhyw risgiau neu gyfyngiadau posibl mewn perthynas â chyfleustodau tanddaearol.

5.14 Anogir ymgeiswyr i ymgysylltu â thrafodaethau cyn ymgeisio â CCS Conwy a'r awdurdodau perthnasol os yw eu cynigion draenio'n cynnwys:

- Arllwys i garthffosydd cyhoeddus neu ddraeniau priffyrdd;
- Cysylltiadau yn agos at neu ar draws isadeiledd trydydd parti; a
- Lleoliad y gwaith o'i gymharu ag unrhyw wasanaethau tanddaearol presennol.

5.15 Yn dilyn y Datganiad Sefyllfa Rheoli Dŵr Wyneb a gyhoeddwyd gan Dŵr Cymru ym mis Ebrill 2025, anogir datblygwyr i ymgymryd â diwydrwydd dyladwy a darparu sylfaen dystiolaeth gadarn i gefnogi unrhyw gysylltiad arfaethedig.

5.16 Fel rhan o'r broses Cais Llawn, mae gofyn i CCS Conwy ymgynghori ag ymgyngoreion statudol megis Dŵr Cymru, a disgwylir ymatebion o fewn yr amserlen tair wythnos. Os nad yw'r ymgeisydd eisoes wedi ceisio cadarnhad gan Dŵr Cymru mewn perthynas â'u cysylltiad arfaethedig ac wedi ei ddarparu i CCS Conwy, defnyddir y cyfnod ymgynghori statudol i geisio ymateb gan Dŵr Cymru ar y cynigion draenio. Bydd hyn yn rhan o'r broses ddilysu. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori tair wythnos, os na ellir darparu cadarnhad gan Dŵr Cymru yn sgil diffyg gwybodaeth am y cynigion draenio, ni fydd y Cais Llawn yn pasio'r broses ddilysu.

5.17 Nid yw'n anghyffredin i ddatblygwyr osgoi'r cam Cyn Ymgeisio a mynd yn syth i gyflwyno Cais Llawn. Pan fydd hyn yn digwydd, yn arbennig pan fo cynllun draenio arfaethedig yn cynnwys arllwys i asedau trydydd parti, megis y rhai y mae Dŵr Cymru'n berchen arnynt, mae'n gallu bod yn heriol iawn i'r CCS bennu p'un a yw'r hierarchaeth draenio wedi'i ystyried yn briodol. Unwaith y caiff Cais Llawn ei gyflwyno, nid oes cyfle ar gyfer adolygiad CCS cyn yr ymgynghoriad statudol. Byddai cynnal adolygiad o'r fath ar y cam hwn yn rhoi pwysau diangen ar adnoddau cyfyngedig y CCS ac yn peryglu ymestyn y cyfnod penderfynu statudol.

5.18 Mae ymgysylltu cynnar yn helpu i sicrhau fod y strategaeth ddraenio arfaethedig yn dechnegol ymarferol ac yn dderbyniol i bob budd-ddeiliad. Gall methiant i gadarnhau cysylltiad neu asesu cyfyngiadau tanddaearol ar y cam dylunio arwain at oedi sylweddol, costau ail-ddylunio neu wrthod y cais.

5.19 Ni fydd CCS Conwy'n dechrau asesu Cais Llawn nes bydd cadarnhad ysgrifenedig wedi'i dderbyn gan yr awdurdod lleol bod y lleoliad arllwys arfaethedig a'r trefniadau cysylltu'n dderbyniol. Ni fydd y cyfnod asesu statudol yn dechrau'n ffurfiol tan hynny. Fodd bynnag, mae CCS Conwy'n parhau i fod yn agored i ymgysylltiad cynnar ac yn annog ymgeiswyr i drafod eu cynigion drwy drafodaethau Cyn Ymgeisio.

5.20 Rhennir pob ymateb i'r ymgynghoriad â'r ymgeisydd. Os codir unrhyw wrthwynebiad neu bryderon technegol, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cysylltu'n uniongyrchol â'r awdurdod perthnasol i fynd i'r afael â hwy. Nid yw CCS Conwy'n gweithredu fel cyfryngwr rhwng ymgeiswyr ac adrannau eraill o fewn CBSC na chyrff rheoleiddiol allanol.

## Ymgynghoriad Statudol

5.21 Yn ogystal ag ymgynghoriad statudol, mae'n bosibl y bydd CCS yn ymgymryd ag ymgynghoriad anstatudol gydag adrannau mewnol perthnasol lle bo hynny'n briodol. Bwriedir i'r rhain sicrhau fod y cynlluniau draenio arfaethedig yn cyd-fynd ag amcanion lleol ehangach, megis rheoli risg llifogydd a gwella bioamrywiaeth.

5.22 Gall ymgyngoreion anstatudol gynnwys:

- **Tîm Rheoli Risg Llifogydd CBSC:** sy'n sicrhau nad yw nodweddion SDC yn cynyddu risg llifogydd a'u bod yn cydymffurfio â pholisïau a chanllawiau risg llifogydd lleol.

- **Adran Ecoleg CBSC:** sy'n asesu p'un a yw'r cynllun yn ymgorffori cyfleoedd i wella bioamrywiaeth ac yn cefnogi rhwydweithiau ecolegol lleol.

5.23 Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol ei bod yn debygol y bydd CCS Conwy'n ymgynghori'n fewnol yn y sefyllfaoedd canlynol:

- Pan fo'r safle wedi'i leoli o fewn neu'n agos at ardal risg llifogydd neu â hanes o lifogydd dŵr wyneb;
- Pan fo'r system ddraenio arfaethedig yn cynnwys nodweddion fel pantiau, pyllau, gwlypdiroedd, neu fasnau a all gael effaith ar hydroleg neu ecoleg lleol;
- Pan fo'r datblygiad yn agos at safleoedd ecolegol dynodedig neu gynefinoedd o werth ecolegol;
- Pan fo'r cynllun yn cynnig nodweddion SDC arloesol neu ansafonol a all ymofyn craffu ychwanegol; a
- Pan fo angen cydlynu â mentrau amgylcheddol neu isadeiledd eraill a arweinir gan CBSC.

5.24 Cwblheir yr ymgynghoriadau hyn yn ôl disgresiwn CCS Conwy a'r bwriad yw eu bod yn cefnogi darpariaeth systemau draenio cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n bodloni safonau technegol ac amgylcheddol. I osgoi oedi diangen, anogir ymgeiswyr i ystyried y ffactorau hyn yn gynnar yn y broses ddylunio, a lle bo hynny'n berthnasol, ceisio cyngor anffurfiol gan yr adrannau priodol cyn cyflwyno cais.

# 6. Gwybodaeth a Gofynion Dylunio

6.1 Mae CCS Conwy'n cydnabod y gall manylion a chymhlethdod technegol y wybodaeth sy'n ofynnol i gefnogi Cais Llawn amrywio'n fawr yn ddibynnol ar raddfa a natur y datblygiad.

6.2 Mae Tabl A a B ar y 'Ffurflen Gais ar gyfer Cymeradwyaeth Cais Llawn SDC' yn rhestru'r mathau perthnasol o wybodaeth ategol sy'n ofynnol ar gyfer Cais Llawn, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn **Nhabl 6.1.** Mae Atodiadau C-F Canllawiau SDC Gogledd Cymru[1] hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer cwblhau Ceisiadau Cyn Ymgeisio a Cheisiadau Llawn ac yn cynnwys:

- Ffurflen ganlyniadau prawf ymdreiddiad;
- Ffurflen gyfrifiadau dyluniad hydrolig;
- Gofynion asesu ansawdd dwr; a
- Ffurflen gynllun cynnal a chadw.

6.3 Yn ogystal â'r wybodaeth hon, mae'r pwyntiau canlynol yn hanfodol yn ein gofynion Cais Llawn, a gall methiant i'w darparu arwain at wrthod y cais.

### Cynllun Dalgylch neu Ddisgrifiad o Batrwm Draenio Dŵr Wyneb Presennol y Safle

6.4 Mae hyn yn ofynnol er mwyn pennu a dangos unrhyw lwybrau llif llifogydd naturiol ac adolygu'r potensial ar gyfer dŵr yn llifo i'r safle o ddalgylchoedd yn uwch i fyny. Mae'n hollbwysig deall y patrwm draenio presennol cyn datblygu er mwyn llywio a gwerthuso'r system ddraenio arfaethedig yn erbyn y sefyllfa cyn datblygu. Mae'r

manylion gofynnol yn cynnwys cyrchfannau dŵr ffo presennol, dalgylchoedd draenio, llwybrau llif naturiol, llwybrau gormodiant a lefelau presennol.

## Cyfrifiadau ar gyfer Rhyng-gipio

6.5 Ni ddylai safleoedd gynhyrchu dŵr ffo ar gyfer y 5mm cyntaf o ddŵr glaw yn unol â Safon 2 yn Safonau LlC[3]. Byddai CCS Conwy'n disgwyl gweld cyfrifiadau a fyddai'n cefnogi cadw'r 5mm cyntaf ar y safle, yn debyg i'r enghraifft yn **Ffigur 6.1.**

*Ffigur 6.1: Enghraifft o Gyfrifiad Cyfeintiol Rhyng-gipio*

Dyma esboniad syml o sut i gynhyrchu cyfrifiad rhyng-gipio:

**1. Pennu Cyfanswm yr Arwynebedd Anhydraidd**

- Dylid mesur cyfanswm arwynebedd yr arwynebau anhydraidd ar y safle (mewn metrau sgwâr).
- Mae hyn yn cynnwys toeau, ardaloedd palmantog, meysydd parcio, a lleiniau caled eraill a fydd yn cynhyrchu dŵr ffo.

<u>Enghraifft:</u>

Cyfanswm Arwynebedd Anhydraidd y Datblygiad = 3,530$m^2$

**2. Cyfrifo'r Cyfaint Rhyng-gipio 5mm Gofynnol**

- Lluoswch gyfanswm yr arwynebedd anhydraidd gyda 0.005 metr (5mm wedi'i fynegi mewn metrau) er mwyn cael y cyfaint storio gofynnol mewn metrau ciwbig ($m^3$).

<u>Fformiwla:</u>

Cyfaint Rhyng-gipio ($m^3$) = Arwynebedd Anhydraidd ($m^2$) × 0.005m

<u>Enghraifft:</u>

3,530$m^2$ × 0.005 m = 17.65m3

**3. Darparu Manylion y Nodweddion SDC Arfaethedig a'u Capasiti Storio**

- Dylid rhestru pob nodwedd SDC a luniwyd i ryng-gipio 5mm o ddŵr glaw.
- Dylid cyfrifo a nodi'r storfa rhyng-gipio a ddarperir gan bob nodwedd.
- Sicrhewch fod capasiti storio'n cael ei fesur hyd at lefel y bibell all-lif, y dylid ei gosod uwchben y sylfaen, er mwyn caniatáu ar gyfer rhyng-gipio cyn arllwys.

**4. Cyfanswm y Cyfaint Rhyng-gipio a Ddarperir**

- Adiwch gapasiti storio pob nodwedd SDC a luniwyd ar gyfer rhyng-gipio.

**5. Cadarnhau Cydymffurfiaeth**

- Gwiriwch fod cyfanswm y cyfaint rhyng-gipio a ddarperir yn hafal neu'n uwch na'r cyfaint rhyng-gipio gofynnol a gyfrifwyd yng **Ngham 2.**

*Tabl 6.1:* Dogfennau sy'n ofynnol ar gyfer Cais Llawn

| | Dogfennau Angenrheidiol |
|---|---|
| **Gwiriwch fod pob dogfen yn Nhabl A wedi cael eu darparu** | Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd |
| | Adroddiad Geodechnegol Ffeithiol a Deongladwy Manwl |
| | Cynigion Manwl Dylunio Draeniad SDC ar gyfer y Safle Cyfan |
| | Cynllun Cynnal a Chadw Asedau Systemau Draenio Cynaliadwy Manwl.d Ar gyfer safleoedd lle bydd y CCS yn eu mabwysiadu, mae'n rhaid i'r manylion cynnal a chadw fod yn fanwl ac yn benodol. Dylid darparu cynllun cynnal a chadw manwl yn dangos yr elfennau i'w cynnal a'u cadw, mynediad a llefydd parcio i gerbydau cynnal a chadw, ac ati, gan nodi sut ystyriwyd gwaith cynnal a chadw yn y cynllun. |
| | Cynllun Amwynder a Bioamrywiaeth |
| | Adroddiadau Tir Ansefydlog a Halogedig |
| | Cynllun Atal Llygredd a/neu Ansawdd Dŵr |
| | Cynllun Tirlunio |
| | Cynllun Rheoli Adeiladu |
| | Cynllun Cyfnod Adeiladu |
| | Cynllun Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| | Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch neu gofrestr risg dylunwyr Dylunio a Rheoli Adeiladu |
| | Cydsyniad a chaniatâd e.e. Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol |
| | Dogfennau Teitl |
| **Gwiriwch fod pob dogfen yn Nhabl B wedi cael eu darparu** | Taflen Ddyluniadau |
| | Rhybudd cynllunio |
| | Cynllun o leoliad y safle |
| | Cynllun dalgylch neu ddisgrifiad o batrwm draenio dŵr wyneb presennol y safle. Mae hyn yn ofynnol er mwyn pennu a dangos unrhyw lwybrau llif llifogydd naturiol ac adolygu'r potensial ar gyfer dŵr yn llifo i'r safle o ddalgylchoedd yn uwch i fyny. |
| | Cyfrifiadau ar gyfer Rhyng-gipio - Ni ddylai safleoedd gynhyrchu dŵr ffo ar gyfer y 5mm cyntaf o ddŵr glaw. |
| | Cyfrifiadau ar gyfer Trin Dŵr Wyneb - Dull Mynegai Syml |
| | Asesu llif gormodiant a'r manylion cysylltiedig. Mae angen y rhain i ddeall yr effaith ar y datblygiad, y system ddraenio a'r eiddo cyfagos yn ystod tywydd eithafol a/neu fethiant/rhwystr. |
| | Darluniau lliw o gynllun peirianneg cyffredinol (Cynllun Mabwysiadu) |
| | Darluniau lliw o rannau hydredol |
| | Darluniau trawstoriad a darluniau manylder safonol |
| | Darlun cynllun tirlunio |
| | Darluniau arbenigol |

6.6 Efallai nad y 'Dull Cyfeintiol' yw'r dull mwyaf addas ar gyfer cyfrifo gofynion rhyng-gipio ar gyfer datblygiadau llai. Ar gyfer safleoedd llai, ystyrir bod dulliau rhyng-gipio amrywiol yn cydymffurfio â'r gofyniad ar gyfer dim dŵr ffo o'r 5mm cyntaf o ddŵr glaw, fel yr amlinellir yn Nhabl G2.1 yn y Safonau Statudol[3] ac Adran 24.6 yn y Llawlyfr SDC[5]. Gellir hefyd defnyddio'r dulliau hyn ar gyfer datblygiadau mwy lle rheolir rhyng-gipio fesul ardal. Lle cynigir y 'Dull Ardal', byddai CCS Conwy dal yn disgwyl gweld cyfrifiadau ategol neu ddisgrifiad clir yn dangos potensial rhyng-gipio'r safle.

6.7 Yn ôl arfer da, dylid dosbarthu cydrannau draenio ar draws datblygiad ac mewn cyfres i gyflawni system reoli dŵr wyneb gadarn, i ddarparu rhyng-gipio effeithiol a rheoli ffynonellau, gan fodloni Safonau Statudol eraill hefyd, megis amwynder a bioamrywiaeth. Yn ogystal â hyn, mae'r 5mm cyntaf o bob dŵr glaw'n cynnwys y crynodiad uchaf o lygryddion, yn arbennig ar gyfer ffyrdd, sy'n golygu fod rhyng-gipio'n hanfodol ar gyfer gwella ansawdd dŵr. Dylai SDC felly dargedu'r agweddau mwyaf llygrol ar safle megis y coridor priffyrdd. Mae'n annhebygol y bydd dibyniaeth ar elfennau SDC a ddarperir ar ddiwedd rhwydwaith ddraenio megis basn neu nodwedd gwanhau yn ddigon ar eu pen eu hunain i ddarparu rhyng-gipio digonol i fodloni'r meini prawf 5mm.

6.8 Gall safleoedd sydd ond ag ychydig o botensial ymdreiddio hyd yn oed fodloni'r gofynion rhyng-gipio llawn ar gyfer digwyddiadau glaw cychwynnol drwy gynyddu gorchudd llystyfiant, ymgorffori storfa wyneb, a gweithredu systemau peirianyddol a luniwyd ar gyfer dal dŵr dros dro ac anweddu.

6.9 Mae'n bwysig ymgynghori â CCS Conwy cyn gynted â phosibl wrth gynllunio datblygiadau, gan y gall y strategaeth ddraenio gyffredinol, os nad yw'n cael ei hystyried yn gynnar, arwain at oblygiadau sylweddol ar gyfer safle o ran y cynllun a'r dyluniad. Dylid felly ystyried strategaethau draenio ar y cam cysyniad a chamau cynnar y datblygiad er mwyn sicrhau fod nodweddion draenio gofynnol yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau'r safle. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer datblygiadau tir glas, gan mai'r lleoliadau hyn sy'n darparu'r potensial mwyaf ar gyfer cynnwys SDC.

### Cyfrifiadau ar gyfer Trin Dŵr Wyneb

6.10 Mae ar CCS Conwy angen cyfrifiadau ar gyfer trin dŵr wyneb, megis y Dull Mynegai Syml, fel y nodir yn Adran 26.7.1 yn y Llawlyfr SDC. Mae'n rhaid dylunio SDC i ddarparu'r gwerthoedd a nodir yn yr adran 'Dylunio Triniaeth' yn y Llawlyfr SDC[5], ar gyfer pob elfen SDC berthnasol. [5]

### Asesu Llif Gormodiant a'r manylion cysylltiedig

6.11 Mae angen asesiad llif gormodiant i ddeall yr effaith ar y datblygiad, y system ddraenio a'r eiddo cyfagos yn ystod tywydd eithafol a neu fethiant/rhwystr. Byddai CCS Conwy'n disgwyl i'r manylion canlynol gael eu cynnwys ar gynlluniau gormodiant.

- Mae'n rhaid dangos llwybrau llif i ffin y datblygiad;
- Dylid dangos lefelau cyfuchliniau ar y dyluniad;
- Dylid darparu sylwadau ar y dyluniad ar ffurf saethau â nodiadau; a
- Dylid dangos methiant neu rwystr o'r ffynonellau mwyaf tebygol.

[5] CIRIA, *The SuDS Manual* (2015)

# 7. Paramedrau Dylunio SDC

7.1 Mae Adrannau 6.2 a 6.3 Canllawiau SDC[1] Gogledd Cymru'n amlinellu'r paramedrau a'r gofynion dylunio hydrolig ar gyfer pob dyluniad draenio dŵr wyneb. Mae CCS yn ceisio egluro'r paramedrau dylunio penodol sy'n gysylltiedig â chyfrifo cyfraddau dŵr ffo presennol ac arfaethedig a dulliau rhagweld dŵr glaw.

## Cyfrifo Cyfraddau Dŵr Ffo Presennol ac Arfaethedig

7.2 Mae Paragraff G2.19 Safonau LlC[3] yn nodi'r canlynol:

*"Mae'r asesiad o begwn cyfraddau dŵr ffo o dir glas, safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen a safleoedd datblygu arfaethedig, a dyluniad systemau storio gwanhau yn Llawlyfr SuDS".*

7.3 Felly, dylai'r dulliau cyfrifo a ddefnyddir ar gyfer pennu cyfraddau dŵr ffo tir glas ddilyn Pennod 24 y Llawlyfr SDC[5], gan ddefnyddio dulliau FEH ReFEH2, FEH Ystadegol, neu IH124

7.4 Mae Safon Statudol 2 Safonau LlC[3] yn ei gwneud yn ofynnol i gyfraddau a chyfeintiau llif o safleoedd datblygu gael eu rheoli a'u gwanhau i gyfraddau a chyfeintiau tir glas. Mae cyfyngu'r gyfradd llif ffo arfaethedig i QBAR (Llif Blynyddol Cymedrig) ar gyfer pob digwyddiad hyd at, a gan gynnwys, y digwyddiad unwaith mewn 100 mlynedd yn ogystal â Newid Hinsawdd yn bodloni'r meini prawf hyn, fel yr amlinellir yn G2.30 Safonau LlC[3].

*Ffigur 7.1: Adran G2.30 Safonau Statudol LlC*

Dylai'r holl ddŵr ffo o'r safle am y digwyddiad unwaith mewn100 mlynedd gael ei arllwys naill ai ar gyfradd o 2 l/s/ha neu'r gyfradd frig gyfartalog flynyddol (hy y llif cymedrig blynyddol, QBAR), pa un bynnag sydd fwyaf.

7.5 Mae'n hanfodol bod yr ardaloedd safle a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau dŵr ffo ar gyfer y tir glas a'r datblygiad arfaethedig wedi'u hystyried yn briodol ac yn gyson, fel y nodir yn adran 24.2.2 y Llawlyfr SDC[5]

*Ffigur 7.2: Adran 24.2.2 Llawlyfr SDC* Ffigur 3:

**24.2.2 Runoff areas to be used in calculations**

The runoff area used in any of the runoff estimation methods should be consistent; for example, if the whole site area is used in the greenfield runoff rate calculations, the whole site should also be represented in the runoff calculations for the proposed development. If there is a landscaped area in the developed scenario that discharges directly to receiving waters and does not contribute to the drainage system (so is excluded from the calculations) then this area should also be excluded from the greenfield calculations.

7.6 I sicrhau cysondeb, dylid mynegi QBAR mewn litrau fesul eiliad fesul hectar (l/s/ha). Cyfrifir hyn drwy rannu gwerth y QBAR (mewn l/s) yn ôl yr ardal (mewn hectarau) a ddefnyddiwyd. Caiff y gyfradd arllwys arfaethedig ar gyfer y safle datblygu ei phennu drwy luosi'r gyfradd QBAR (l/s/ha) ag ardal anhydraidd y rhwydwaith ddraenio arfaethedig (ha), gan arwain at fynegi pegwn y gyfradd dŵr ffo mewn litrau fesul eiliad (l/s).

### Amcangyfrif Dŵr Glaw (gan ddefnyddio FEH neu FSR)

7.7 Mae CCS Conwy'n dymuno ystyried defnyddio dŵr glaw FEH yn y dadansoddiad hydrolig a lwfans o 30% ar gyfer newid hinsawdd yn ogystal â 10% ar gyfer lledaeniad trefi. Fodd bynnag, os defnyddir FSR, dylid cymhwyso lwfans newid hinsawdd o 50% (h.y. 20% ychwanegol ar y lwfans gofynnol o 30%) er mwyn cyfrif am y lleihad mewn glawiad.

## 8. Mabwysiadu a Chynnal a Chadw

8.1 Yn ôl Safonau LlC[3], mae'r CCS yn gyfrifol am fabwysiadu nodweddion SDC sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo a sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â'r safonau hyn. P'un a yw'r cyfrifoldebau cynnal a chadw gwirioneddol yn disgyn ar gorff arall neu ddim, bydd y CCS bob amser yn mabwysiadu systemau draenio dŵr wyneb i wasanaethu sawl eiddo. Nid yw CCS Conwy'n derbyn cwmnïau rheoli a benodir gan ddatblygwyr yn gyffredinol, gan eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Ym mhob achos arall, dylid cytuno ar swm cyfnewidiol ar gyfer cynnal a chadw'r SDC am y 60 mlynedd nesaf.

8.2 Ar gyfer safleoedd lle bydd CCS Conwy'n mabwysiadu nodweddion SDC, ar ôl cwblhau'r gwaith arfaethedig ac yn dilyn arolwg terfynol, bydd CCS Conwy'n cyflwyno Tystysgrif Cwblhau Sylweddol, cyn belled nad oes unrhyw broblemau'n codi. Bydd cyfnod cynnal a chadw o 24 mis yn dilyn hyn. Bydd y cyfnod hwn yn sicrhau fod y system ddraenio'n gweithredu yn unol â'r hyn a gymeradwywyd. Yn ystod y Cyfnod Cynnal a Chadw (a nes bydd yn dechrau), mae'n rhaid i'r datblygwr gynnal a chadw'r system ddraenio ar eu traul eu hunain ac yn unol â'r Cynllun Cynnal a Chadw, fel y cymeradwywyd gan CCS Conwy fel rhan o Gais Llawn, gan sicrhau ei fod yn gweithredu yn unol â'r dyluniad bob amser. Cyn cyflwyno Tystysgrif Gwblhau derfynol ar ddiwedd y cyfnod cynnal a chadw, mae'n rhaid i'r CCS fod yn fodlon bod y system ddraenio'n cael ei chynnal a'i chadw'n briodol a'i bod yn gweithredu yn unol â'r dyluniad. Os nad yw CCS Conwy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r system ddraenio ar ôl diwedd y cyfnod cynnal a chadw, yna mae'n rhaid i'r cynhaliwr a benodir ymgymryd â gwaith cynnal a chadw'n unol â'r Cynllun Cynnal a Chadw.

### Amodau ar gyfer Mabwysiadu

8.3 Unwaith y cytunir i fabwysiadu a chynnal a chadw nodweddion SDC, gellir rhoi Caniatâd Llawn, a gellir dechrau ar y gwaith adeiladu. Rhoir Caniatâd Llawn gydag amodau i sicrhau fod SDC mabwysiedig yn cael eu hadeiladu yn unol â'r cynllun cymeradwy. Mae enghreifftiau o'r amodau perthnasol yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Mae gofyn i wiriadau dilysu gael eu cwblhau gan y dylunydd yn ystod y cyfnod adeiladu ac ar ôl cwblhau'r gwaith draenio dŵr wyneb. Pwrpas hyn yw sicrhau fod y system yn cael ei hadeiladu yn unol â'r cynllun, ei bod yn cyflawni'r defnydd bwriedig ac yn bodloni'r gofynion a nodwyd.
- Dylid darparu arolwg manwl o'r safle fel y'i hadeiladwyd, sy'n cynrychioli lleoliad a lefelau'r datblygiad, i CCS Conwy ar ôl cwblhau'r gwaith arfaethedig.
- Mae'n rhaid i'r system ddraenio fod yn rhydd o unrhyw rwystrau a diffygion strwythurol sylweddol. Dylid cynnal arolwg teledu cylch caeedig ar sawl cam drwy gydol y datblygiad ac ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu i gadarnhau fod yr amodau hyn yn cael eu bodloni. Mae'n bosibl y bydd CCS Conwy yn gofyn aml Arolwg Teledu Cylch Caeëdig cyn diwedd y Cyfnod Cynnal a Chadw 24 mis hefyd a chyn i CCS Conwy gymryd cyfrifoldebau cynnal a chadw ffurfiol.

8.4 Gall methiant i fynd i'r afael â, neu gydymffurfio ag, unrhyw amodau a restrir o fewn dogfen ganiatâd CCS Conwy, arwain at dynnu Cymeradwyaeth CCS yn ôl ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid cyflwyno Hysbysiad Atal neu gymryd camau gorfodi eraill mewn perthynas â'r gwaith.


## Cytundeb Cyfreithiol

8.5 Bydd CCS Conwy angen cael cytundeb cyfreithiol os fydd y system ddraenio yn cael ei mabwysiadu gan CCS Conwy. Mae hyn yn darparu ffordd ffurfiol o nodi'r trefniadau manwl ar gyfer adeiladu a gweithredu'r system ddraenio ar gyfer oes y datblygiad, ynghyd â darpariaethau perthnasol eraill. At ddibenion y cytundeb CCS, oes y datblygiad fydd 60 mlynedd.

8.6 Ar gyfer mabwysiadu SDC, mae'n debygol y bydd yn rhaid ymgysylltu â gwasanaethau cyfreithiol allanol. Dylai datblygwyr fod yn ymwybodol bod costau ynghlwm â'r gwasanaethau hyn. Felly, anogir ymgeiswyr i gael y wybodaeth a'r manylion perthnasol yn barod i hwyluso'r broses o lunio cytundeb cyfreithiol. Er mwyn lleihau'r costau cyfreithiol, cynghorir ymgeiswyr i ddarparu'r wybodaeth ganlynol i CCS Conwy cyn gynted â phosibl yn y broses o ymgeisio am gymeradwyaeth CCS:

- Manylion y datblygwr;
- Perchennog y safle (os yn wahanol);
- Manylion cyswllt y Cyfreithiwr;
- Manylion y morgeisai;
- Dyddiad codi ffi;
- Manylion y Darparwr Sicrwydd;
- Swm y sicrwydd (costau adeiladu llawn nodweddion SDC mabwysiedig); a
- Chytundeb cynnal a chadw (Cwmni Rheoli neu Swm Cyfnewidiol).

*Ffigur 8.1: Cynllun Mabwysiadu CCS Enghreifftiol*



8.7 Yn ogystal â chytundeb cyfreithiol, bydd angen Cynllun Mabwysiadu CCS, y dylid ei ddarparu gan yr ymgeisydd unwaith y bydd Cymeradwyaeth Dechnegol wedi'i rhoi ar gyfer Cais SDC, yn debyg i'r enghraifft a ddengys yn **Ffigur 9.1.** Dylai'r cynllun mabwysiadu nodi'r nodweddion SDC sy'n gwasanaethu mwy nag un annedd yn glir, fel arfer wedi'u hamlygu mewn glas, gyda hawddfraint cynnal 3m ar bob ochr. Nid yw hawddfreintiau'n ofynnol ar gyfer pibelli sydd wedi'u lleoli o fewn priffordd fabwysiedig.

8.8 I sicrhau bod modd gweithredu a chynnal isadeiledd SDC mabwysiedig yn hirdymor, mae'n hanfodol sicrhau fod pob darpariaeth gyfreithiol berthnasol, megis hawddfreintiau a throsglwyddiadau tir, wedi'u diogelu cyn gwerthu plotiau unigol. Mae'n rhaid i'r darpariaethau hyn gael eu diffinio'n glir a'u cofnodi'n gyfreithiol yng ngweithredoedd pob eiddo a effeithir. Dylent roi hawliau mynediad priodol, arolygon, gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio i'r awdurdod mabwysiadu neu'r corff cyfrifol.

8.9 Mae'n hanfodol bwysig fod darpar berchnogion yr eiddo'n ymwybodol o'r trefniadau hyn ac yn cytuno iddynt fel rhan o'r broses brynu. Mae'r tryloywder hwn yn helpu i osgoi dadleuon i'r dyfodol ac yn sicrhau bod modd cynnal yr isadeiledd heb rwystr cyfreithiol neu gorfforol.

8.10 Gall methiant i gynnwys y mecanweithiau cyfreithiol hyn cyn gwerthu plotiau arwain at oedi neu wrthod mabwysiadu gan CCS Conwy, yn ogystal â chymhlethdodau o ran cael mynediad at a chynnal a chadw isadeiledd draenio a rennir. Mewn rhai achosion, gallai hyn hefyd arwain at atebolrwydd ar gyfer datblygwyr neu gwmnïau rheoli. Cynghorir datblygwyr i ymgysylltu ag ymgynghorwyr cyfreithiol yn gynnar felly i sicrhau fod pob hawddfraint a throsglwyddiad hanfodol yn cael eu drafftio'n briodol, eu cytuno a'u cofrestru'n brydlon.

## Symiau Gohiriedig

8.11 Wrth gyfrifo symiau gohiriedig, mae CCS Conwy'n dilyn y canllawiau a amlinellir yn Adran 4.22 Canllawiau Statudol SDC[4], ynghyd â dogfennau arfer gorau fel y Llawlyfr SDC[5], a manylebau gwneuthurwyr perthnasol. Cyfrifir y swm gohiriedig i gynnwys y costau cynnal a chadw rheolaidd disgwyliedig yn ogystal â gwaith adfer a disodli ar gyfer nodweddion SDC penodol dros gyfnod o 60 mlynedd. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y gall hyn arwain at swm gohiriedig sylweddol, yn ddibynnol ar y math o SDC a gynigir. Er bod CCS Conwy'n agored i fabwysiadu amrywiaeth o nodweddion SDC, gall y costau hirdymor cysylltiedig fod yn sylweddol. Felly, mae'n hanfodol fod ymgeiswyr yn ystyried gofynion cynnal a chadw parhaus nodweddion SDC ac i'r dyfodol dros gyfnod oes y datblygiad. Dylid talu swm gohiriedig i CCS cyn diwedd y cyfnod cynnal a chadw 24 mis.

8.12 Mae pafin hydraidd yn ymofyn gwaith cynnal a chadw rheolaidd sylweddol, a gall gwaith atgyweirio neu ddisodli fod yn gostus, sy'n aml yn cynyddu symiau gohiriedig. Mae storio cellog tanddaearol yn effeithiol ar gyfer darparu gofod storio gyda llai o angen am ofod uwchben y tir. Fodd bynnag, o'i gymharu â nodweddion SDC, ychydig o fuddion ychwanegol mae storio cellog yn ei gynnig ar gyfer cymeradwyaeth CCS, megis gwelliannau i ansawdd dŵr, amwynder, neu fioamrywiaeth. Yn ogystal â hynny, unwaith y bydd silt yn cyrraedd y systemau hyn, mae'n gallu bod yn anodd ei waredu, gan nad yw archwilio camerâu a chwistrellu dŵr yn ymarferol yn aml iawn. Mae costau sylweddol hefyd ynghlwm â chloddio ac adfer ardal unwaith y caiff storfeydd cellog eu disodli, o ganlyniad, bydd storio tanddaearol ond yn cael ei ganiatáu pan mai dyma'r unig opsiwn sydd ar ôl i reoli'r gollyngiad terfynol o'r safle'n briodol.

8.13 Cynghorir y rhai sy'n awyddus i ddatblygu yn sir Conwy ystyried y ddyletswydd mabwysiadu ar CCS Conwy, ac unrhyw gostau a all fod ynghlwm â'r datblygiad bwriedig o ganlyniad. Mae Cyfrifiad Swm Gohiriedig enghreifftiol wedi'i gynnwys yn **Atodiad A**.

## Eithriadau Landlord Cymdeithasol Cofrestredig

8.14 Lle bo system ddraenio'n gwasanaethu sawl eiddo, bydd CCS Conwy'n ystyried y sefyllfa berchnogaeth fwriedig ar gyfer yr eiddo perthnasol. Os nad yw datblygiad yn cynnwys tai perchen-feddianwyr (tai'r farchnad agored neu gynllun cydberchnogaeth) neu unrhyw adeiladau neu strwythurau eraill sy'n eiddo i drydydd parti, mae'n bosibl y bydd CCS Conwy'n gosod rhwymedigaeth ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) i gynnal y system ddraenio er bod CCS wedi'i mabwysiadu. Byddai hyn yn debyg i drefniant lle penodir cwmni rheoli at y diben hwn (gan nodi y gellir ystyried bod LCC yn darparu cyfamod cryf), sy'n golygu na fyddai angen swm gohiriedig. Nodwch os gwelwch yn dda, mewn achosion lle mae CCS Conwy'n gosod rhwymedigaeth ar y LCC i gynnal y system ddraenio er bod CCS Conwy wedi'i mabwysiadu, bydd cytundeb cyfreithiol yn parhau i fod yn angenrheidiol.

8.15 Gall datblygiadau gan LCC gynnwys eiddo a fwriadwyd ar gyfer perchen-feddiannaeth, naill ai drwy werthiant marchnad agored neu drwy gynllun perchnogaeth a rennir. Mae gofyn felly i CCS Conwy gadarnhau deiliadaeth bwriedig pob eiddo perthnasol. Y dystiolaeth fwyaf cyffredin o hyn fydd rhwymedigaeth gynllunio a roddir i CBSC dan Gytundeb Adran 106, neu amod sydd ynghlwm â chaniatâd cynllunio, sy'n ei gwneud yn ofynnol i eiddo o fewn datblygiad barhau fel math penodol o dai fforddiadwy. Ni fydd y CCS yn derbyn datganiad o fwriad gan LCC fel tystiolaeth ddigonol lle nad yw'n rhwymol ar y LCC.

## Bondiau Diffyg Perfformiad

8.16 Mae'n bosibl y bydd ar CCS Conwy angen bond arian parod/sicrwydd mewn perthynas â nodweddion SDC mabwysiedig, i ddiogelu yn erbyn diffyg perfformiad neu fethiant i gwblhau'r system ddraenio gymeradwyo. Gellir gwneud cais am fond yn y sefyllfaoedd canlynol:

- Lle bo ansicrwydd ynghylch gallu'r datblygwr i gwblhau'r cynllun SDC yn unol â'r cynlluniau a'r safonau cymeradwy;
- Ar gyfer datblygiadau mawr a chymhleth, lle mae'r risg o beidio â chwblhau neu oedi o ran gweithredu'n uwch;
- Lle nad oes gan y datblygwr dystiolaeth flaenorol o ddarparu cynlluniau SDC cydymffurfiol; ac
- Os yw'r CCS yn ystyried bod risg sylweddol i fudd y cyhoedd neu ddiogelwch amgylcheddol pe na bai'r SDC yn cael ei chwblhau neu ei chynnal yn briodol.

8.17 I sicrhau fod cyllid ar gael ar gyfer gwaith adfer pe bai'r datblygwr yn methu â bodloni eu rhwymedigaethau, mae Bond Diffyg Perfformiad yn gweithredu fel sicrwydd ariannol y gall y CCS ei ddefnyddio i gwblhau neu ddatrys cynllun SDC lle bo angen. Gosodir gwerth y bond ar 100% o'r gost adeiladu ar gyfer y nodweddion SDC mabwysiedig. Wrth gyfrifo'r bond, bydd CCS Conwy yn gofyn am grynodeb fesul eitem o gostau adeiladu'r nodweddion SDC mabwysiedig gan y datblygwr. Dylai ymgeiswyr gadarnhau p'un a fyddai angen cytundeb cyfreithiol drwy ymgysylltiad cynnar neu broses cyn ymgeisio gyda CCS Conwy, cyn cyflwyno Cais Llawn.

8.18 Caiff bond sicrwydd/arian parod o 50% ei ad-dalu/rhyddhau wrth gyflwyno'r Dystysgrif Gwblhau Sylweddol a 50% wrth gyflwyno'r Dystysgrif Derfynol.

## 9. Datblygiadau Graddol

9.1 Ar gyfer datblygiadau a ddarperir yn raddol, mae'n hanfodol bod gweithrediad isadeiledd CDS wedi'i alinio â chamau adeiladu a meddiannu. Mae'n rhaid i ddatblygwyr ddangos fod gan y system gapasiti digonol i reoli dŵr wyneb ffo o bob ardal a gaiff eu cwblhau a'u meddiannu, yn unol â'r meini prawf dylunio a gymeradwywyd dan y cais SDC.

9.2 Lle bwriedir i gydrannau o'r system ddraenio wasanaethu sawl cam, mae'n rhaid i'r elfennau hyn fod wedi'u hadeiladu ac yn llwyr weithredol cyn i'r ardal gael ei meddiannu. Bydd hyn yn sicrhau fod y system yn gweithredu fel y'i dyluniwyd ac yn lliniaru'r risg llifogydd o'r dechrau.

9.3 Mae'n rhaid i ddatblygwyr hefyd reoli dŵr wyneb ffo yn ystod y cam adeiladu. Dylid gweithredu mesurau rheoli llygredd a draenio dros dro i atal gwaddod, gweddillion a difwynwyr rhag cyrraedd y rhwydwaith SDC, gan ddiogelu ei berfformiad hirdymor a diogelu defnyddwyr y safle.

9.4 Dylid dylunio'r system SDC â digon o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer camau yn y dyfodol heb amharu ar berfformiad nag uniondeb yr isadeiledd sydd eisoes ar waith. Dylid deall unrhyw ryngddibyniaethau rhwng camau a'u hymgorffori i ddyluniad a darpariaeth y strategaeth ddraenio gyffredinol.

9.5 Os na nodwyd datblygiad fel un graddol yn ystod y broses ymgeisio SDC, ond mae'n datblygu i fod yn un graddol yn nes ymlaen yn y broses adeiladu, dylid rhoi gwybod i CCS Conwy ar unwaith. Dylid defnyddio'r gofynion a amlinellir uchod er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a rheoli dŵr wyneb yn effeithiol. Dylai datblygwyr ddisgwyl y bydd gofyn iddynt ddarparu unrhyw wybodaeth angenrheidiol i CCS Conwy er mwyn dangos fod yr isadeiledd SDC yn parhau i fodloni meini prawf dylunio cymeradwy a'i fod yn addas i'r diben drwy gydol bob un o'r camau datblygu.

9.6 Mewn rhai achosion, gellir cytuno y byddai dull mabwysiadu graddol yn briodol, yn arbennig os caiff datblygiad safle ei addasu i gael ei gwblhau'n raddol.

## 10. Archwiliadau

10.1 Mae'r CCS yn cadw'r hawl i archwilio gwaith adeiladu'r SDC cymeradwy er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hadeiladu i'r safon briodol gyda deunydd priodol neu'r deunydd a nodwyd. Cytunir ar yr angen am archwiliadau, a'u hamseriad a'u hamlder rhwng y datblygwr a CCS Conwy fel rhan o'r broses gymeradwyo, a bydd y rhain wedi'u cynnwys mewn amod i'r gymeradwyaeth.

10.2 Ar gyfer safleoedd sy'n cynnwys SDC mabwysiedig, mae CCS Conwy'n cadw'r hawl i ymgymryd â chymaint o archwiliadau ag sydd angen, yn ddibynnol ar gynnydd y cam adeiladu ac unrhyw faterion sy'n codi neu a ragwelir. Gan gyflwyno Caniatâd Llawn, mae CCS Conwy'n disgwyl derbyn manylion cyswllt holl bersonél perthnasol y safle i hwyluso cydlyniad effeithiol arolygon safle. Yn dilyn ymweliad safle cychwynnol, bydd CCS Conwy'n gweithio gyda'r tîm ar y safle i bennu'r angen am ddiweddariadau parhaus ynghylch cynnydd y gwaith, a fydd yn helpu i lywio amseriad a chwmpas yr archwiliadau dilynol.

10.3 Ar gyfer safleoedd lle bydd CCS Conwy'n mabwysiadu nodweddion SDC, ar ôl cwblhau'r gwaith arfaethedig ac yn dilyn archwiliad terfynol, bydd CCS Conwy'n cyflwyno Tystysgrif Gwblhau Sylweddol, cyn belled nad oes unrhyw broblemau. Bydd cyfnod cynnal a chadw 24 mis yn dilyn hynny, lle bydd y datblygwr yn gyfrifol am gynnal y system ddraenio. Cyn cyflwyno Tystysgrif Gwblhau ar ddiwedd y cyfnod cynnal a chadw, mae'n rhaid i'r CCS fod yn fodlon bod y system ddraenio wedi'i chynnal yn briodol a'i bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun.

10.4 Caiff mesurau mewn perthynas â rheoli dŵr wyneb eu gwirio'n drylwyr yn ystod archwiliadau safle, bydd hyn yn cynnwys gwirio fod y gwaith adeiladu'n cydymffurfio â'r cynllun cymeradwy, a bod mesurau digonol wedi'u gweithredu yn ystod y cyfnod adeiladu i reoli dŵr wyneb ffo. Codir ffioedd archwilio yn unol â Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018 [6].

## 11. Gorfodi

11.1 Mae'n gyfrifoldeb ar CCS Conwy i gymryd pa bynnag gamau gorfodi sy'n ofynnol yn unol â'r pwerau sydd ar gael iddynt dan Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018 er budd y cyhoedd. Pe nodir unrhyw achos o fynd yn groes i'r gofynion ar gyfer cymeradwyaeth CCS (a bod budd amlwg i'r cyhoedd drwy gymryd camau gorfodi a bod CCS Conwy'n ystyried bod hynny'n rhesymol ac yn fanteisiol), bydd CCS Conwy'n ystyried cymryd camau gorfodi ffurfiol. Gall hyn olygu cyflwyno Hysbysiad Gorfodi, Hysbysiad Oedi Dros Dro neu Hysbysiad Oedi i'r datblygwr. [7]

11.2 Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd CCS Conwy'n ystyried bod cais ôl-weithredol yn ffordd well i fynd i'r afael ag achosion o dorri rheolau neu fod modd i'r datblygwr gymryd camau eraill, ac mae'n bosibl y bydd yn well ganddynt drafod er mwyn cyflawni datrysiad derbyniol i'r achos heb gymryd camau gorfodi. Mewn achosion o'r fath, ni fydd CCS Conwy'n gwyro oddi wrth yr angen i gydymffurfio â Safonau LlC[3]. Mae risg sylweddol ynghlwm â'r sefyllfa hon o ran y costau uchel a'r anghyfleustra sydd ynghlwm â gwaith ôl-weithredol.

11.3 Er gwaethaf yr uchod, dylai datblygwyr fod yn ymwybodol o'r goblygiadau a'r risgiau sydd ynghlwm â dechrau gwaith adeiladu heb gymeradwyaeth SDC. Gall hyn gynnwys problemau â mabwysiadu priffyrdd yn ogystal â chwiliadau cyfreithiol a gweithdrefnau trosglwyddo.

[6] *Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Ffioedd Cais i Gymeradwyo) Cymru 2018*
[7] Llywodraeth Cymru, Gorchymyn *Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018*

# Atodiad A - Enghraifft o Swm Gohiriedig

A.1 Wrth gynllunio ar gyfer gwaith cynnal a chadw hirdymor, mae'n bwysig cofio fod arian heddiw'n werth mwy na'r un cyfanswm yn y dyfodol. Y rheswm dros hyn yw ffactorau megis chwyddiant a chyfraddau llog. I gyfrifo gwerth costau cynnal a chadw i'r dyfodol yn nhermau heddiw, rydym yn defnyddio dull o'r enw Gwerth Presennol Net (NPV).

A.2 Mae'r cyfrifiad hwn yn addasu costau i'r dyfodol drwy ddefnyddio cyfradd ostyngiad, sy'n lleihau gwerth taliadau i'r dyfodol i adlewyrchu gwerth posibl y costau hyn heddiw. Cyfrifir y gyfradd ostyngiad gan gymharu'r cyfraddau llog disgwyliedig gyda chwyddiant. Unwaith y bydd gennym y gyfradd hon, byddwn yn ei defnyddio i leihau pob taliad cynnal a chadw i'r dyfodol, yn ddibynnol ar sawl blwyddyn sydd i fynd. Er enghraifft, os oes angen £850 bob 10 mlynedd dros gyfnod o 30 mlynedd ar gyfer cynnal a chadw, caiff pob taliad i'r dyfodol ei leihau yn ôl pa mor bell i'r dyfodol fydd hynny. Caiff y gwerthoedd diwygiedig hyn eu rhoi at ei gilydd i roi ffactor NPV.

A.3 Yn olaf, i ddarganfod y cyfanswm y byddai angen ei neilltuo heddiw i dalu am gostau yn y dyfodol (swm gohiriedig), rydym yn lluosi'r gost cynnal a chadw cyfredol â'r ffactor NPV. Mae hyn yn sicrhau fod digon o arian ar gael rŵan i dalu am waith cynnal a chadw i'r dyfodol, heb fod angen goramcangyfrif neu danamcangyfrif yr hyn sydd ei angen. Mae **Ffigur A.1** yn cynnwys crynodeb manwl o sut y cyfrifir Symiau Gohiriedig. Mae'r tudalennau nesaf yn cynnig enghraifft go iawn o'r costau cynnal a chadw ar gyfer SDC amrywiol.

*Ffigur A.1 - Cyfrifiad Swm Gohiriedig*

**Σ Mp / (1 + D/100) ™**
Mp - Costau cynnal a chadw cyfnodol yn seiliedig ar gyfraddau cyfredol
D - Cyfradd Ostyngol Gyfnodol (cyfradd llog blynyddol %)
™ - Cyfnod o amser cyn y bydd yn rhaid gwario (blynyddoedd)

**Cyfradd Ostyngol Gyfnodol (D)**
D = (LTNBR/RPIX)-1) x 100
LTNBR - Cyfradd sylfaenol niwtral hirdymor
RPIX - Mynegai Prisiau Manwerthu gan eithrio taliadau morgais

**Gwerth Presennol Net (NPV)**
Ffactor NPV = Σ 1 / (1+D/100) ™

**ENGHRAIFFT**
Mp - £850
LTNBR - 4.5%
RPIX - 2.25%
™ - gwaith cynnal a chadw bob 10 mlynedd am 30 mlynedd

D = ((1.045 / 1.0225) - 1) x 100
^\d{8,12}$

NPV = 1 / (1 + 2.2/100)10 + 1 / (1+2.2/100)20 + 1 / (1+2.2/100)30
NVP = 1.97211

Swm Gohiriedig = cost cyfredol x ffactor NPV
Swm Gohiriedig = £850 x 1.97211
Swm Gohiriedig = £1676.30

A.4 Mae'r enghraifft ganlynol yn amlinellu'r costau cynnal a chadw disgwyliedig ar gyfer System Ddraenio Gynaliadwy, gan gynnwys pantiau, basnau gwanhau, isadeiledd draenio traddodiadol (e.e. tyllau caead a phibellau), a dyfais rheoli llif fortecs. Mae'r amcangyfrifon o'r costau hyn yn seiliedig ar gynllun go iawn ac yn adlewyrchu nodweddion SDC sy'n benodol i'r safle. Bydd symiau gohiriedig yn amrywio'n ddibynnol ar gydrannau'r SDC penodol a gynigir ar gyfer pob safle. Mae rhai costau cynnal a chadw'n seiliedig ar gyfraddau codi mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC), lle caiff gwaith cynnal a chadw ei gwblhau gan y Cyngor. Mae gweithgareddau cynnal a chadw penodol yn ymofyn contractwyr arbenigol. Mewn achosion o'r fath, defnyddiwyd arfer gorau yn y diwydiant a data costau cyhoeddus i lywio'r amcangyfrifon.

*Ffigur A.2 - Gofynion Cynnal a Chadw SDC*

**Pant:**

- Elfen: Casglu Sbwriel, Torri Gwair a Chwynnu
- Ymweliadau fesul blwyddyn: 8
- Hyd: Hanner diwrnod fesul ymweliad (3.75 awr)

**Basnau Gwanhau:**

- Elfen: Archwiliad
- Ymweliadau fesul blwyddyn: 12 gwaith y flwyddyn (am y flwyddyn gyntaf)
- Hyd: 2 awr

- Elfen: Torri gwair a gwaith cynnal a chadw cyffredinol
- Ymweliadau fesul blwyddyn: Bob 6 mis (gwanwyn - cyn y tymor nythu, a'r hydref)
- Hyd: Diwrnod Llawn (7.5 awr)

**System Ddraenio Draddodiadol (Tyllau Caead, Pibellau):**

- Elfen: Archwilio Tyllau Caead, Siambrau Archwilio a'r Trap Silt
- Ymweliadau fesul blwyddyn: 1
- Hyd: Diwrnod Llawn (7.5 awr)

- Elfen: Clirio'r Trap Silt (Peiriant Sugno Gwteri)
- Ymweliadau fesul blwyddyn: 1
- Hyd: Amherthnasol (Contract)

**Dyfais Rheoli Llif - Fortecs (e.e. Brêc Hydro):**

- Elfen: Archwiliad
- Ymweliadau fesul blwyddyn: Misol am y 6 mis cyntaf
- Hyd: 2 awr

- Elfen: Archwiliad
- Ymweliadau fesul blwyddyn: Bob chwe mis
- Hyd: 2 awr

- Elfen: Disodli
- Ymweliadau fesul blwyddyn: 30 mlynedd
- Hyd: Amherthnasol (Contract)

## Pantiau

| Amlder Fesul Blwyddyn | Amserlen Cynnal a Chadw | Elfen | Sylw | Nifer fesul blwyddyn | Cyfradd | Cost |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blynyddol** | **Gwaith Cynnal a Chadw Rheolaidd** | Casglu sbwriel<br>Torri gwair - i gadw uchder y gwair yn unol â'r dyluniad<br>Chwynnu | • 2 weithiwr, fan ac offer bach<br>• £70 yr awr<br>• Hanner Diwrnod | 8 | £262.50 | £2,100.00 |
| | | | | | **Cyfanswm Cost** | **£2,100.00** |

| Amlder Fesul Blwyddyn | Swm Cynnal a Chadw | Ffactor NVP ar gyfer Amlder fesul Blwyddyn | Cyfanswm y gost |
|---|---|---|---|
| **Blynyddol** | £2,100.00 | 33.13701708 | £69,587.74 |
| | | **Cyfanswm** | **£69,587.74** |
| | | **Cynllun wrth gefn i ganiatáu ar gyfer atgyweiriadau ad hoc ac ati. Caniatáu 15%** | **£10,438.16** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Swm Gohiriedig** | **£80,025.90** |

## Basnau Gwanhau

| Amlder Fesul Blwyddyn | Amserlen Cynnal a Chadw | Elfen | Sylw | Nifer fesul blwyddyn | Cyfradd | Cost |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Misol (am y flwyddyn gyntaf)** | **Cynnal a Chadw Rheolaidd** | Archwilio cilfachau ac arwyneb y cyfleuster am unrhyw silt sydd wedi hel. Sefydlu amlder priodol ar gyfer gwaredu silt. | • 2 weithiwr, fan ac offer bach<br>• £70 yr awr<br>• Misol (am y flwyddyn gyntaf) ac yna bob blwyddyn neu yn ôl yr angen<br>• 2 awr y mis | 12 | £140.00 | £1,680.00 |
| | | | | | **Cyfanswm Cost** | **£1,680.00** |

| Amlder Fesul Blwyddyn | Amserlen Cynnal a Chadw | Elfen | Sylw | Nifer fesul blwyddyn | Cyfradd | Cost |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Misol (yn ystod y tymor tyfu), neu yn ôl yr angen** | **Cynnal a Chadw Rheolaidd** | Torri gwair - ar gyfer llwybrau mynediad a gorlifan | Yn ôl yr angen | Cynllun wrth gefn i ganiatáu ar gyfer atgyweiriadau ad hoc ac ati. Caniatáu 15% | | |
| | | | | | **Cyfanswm Cost** | **£0.00** |

| Amlder Fesul Blwyddyn | Amserlen Cynnal a Chadw | Elfen | Sylw | Nifer fesul blwyddyn | Cyfradd | Cost |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bob 6 mis (gwanwyn - cyn y tymor nythu, a'r hydref)** | **Cynnal a Chadw Rheolaidd** | Torri gwair - gwair o fewn ac o amgylch y basn | • 2 weithiwr, fan ac offer bach<br>• £70 yr awr<br>Bob 6 mis (gwanwyn - cyn y tymor nythu, a'r hydref)<br>• Diwrnod Llawn | 2 | £525.00 | £1,050.00 |
| | | | | | **Cyfanswm Cost** | **£1,050.00** |

| Amlder Fesul Blwyddyn | Swm Cynnal a Chadw Blynyddol | Ffactor NVP ar gyfer Amlder fesul Blwyddyn | Cyfanswm y gost |
|---|---|---|---|
| | | **Misol (am y flwyddyn gyntaf)** | £1,680.00 |
| **Bob 6 mis (gwanwyn - cyn y tymor nythu, a'r hydref)** | £1,050.00 | 33.13701708 | £34,793.87 |
| | | **Cyfanswm** | **£36,473.87** |
| | | **Cynllun wrth gefn i ganiatáu ar gyfer atgyweiriadau ad hoc ac ati. Caniatáu 15%** | **£5,471.08** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Swm Gohiriedig** | **£41,944.95** |

## Systemau Draenio Traddodiadol

| Amlder Fesul Blwyddyn | Amserlen Cynnal a Chadw | Elfen | Sylw | Nifer fesul blwyddyn | Cyfradd | Cost |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blynyddol** | **Cynnal a Chadw Rheolaidd** | Archwilio Tyllau Caead, Siambrau Archwilio a'r Trap Silt | • 2 weithiwr, fan ac offer bach<br>• £70 yr awr<br>• Diwrnod Llawn | 1 | £525.00 | £525.00 |
| | | Clirio'r Trap Silt | Peiriant Sugno Gwteri gan gynnwys Gweithiwr | 1 | £500.00 | £500.00 |
| | | | | | **Cyfanswm Cost** | **£1,025.00** |

| Amlder Fesul Blwyddyn | Swm Cynnal a Chadw | Ffactor NVP ar gyfer Amlder fesul Blwyddyn | Cyfanswm y gost |
|---|---|---|---|
| **Blynyddol** | £1,025.00 | 33.13701708 | £33,965.44 |
| | | **Cyfanswm** | **£33,965.44** |
| | | **Cynllun wrth gefn i ganiatáu ar gyfer atgyweiriadau ad hoc ac ati. Caniatáu 15%** | **£5,094.82** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Swm Gohiriedig** | **£39,060.26** |

## Rheoli Llif - Fortecs

| Amlder Fesul Blwyddyn | Amserlen Cynnal a Chadw | Elfen | Sylw | Nifer fesul blwyddyn | Cyfradd | Cost |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **6 Mis Cyntaf** | **Cynnal a Chadw Rheolaidd** | Archwilio'r siambr a'r mecanwaith rheoli llif | • 2 weithiwr, fan ac offer bach<br>• £70 yr awr<br>• 2 awr<br>• Misol am y 6 mis cyntaf | 6 | £140.00 | £840.00 |
| | | | | | **Cyfanswm Cost** | **£840.00** |

| Amlder Fesul Blwyddyn | Amserlen Cynnal a Chadw | Elfen | Sylw | Nifer fesul blwyddyn | Cyfradd | Cost |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bob chwe mis** | **Cynnal a Chadw Rheolaidd** | Archwilio'r siambr a'r mecanwaith rheoli llif<br>Archwilio cilfachau ac allfeydd am rwystrau<br>Gwirio bod y mecanwaith draenio brys mewn cyflwr da | • 2 weithiwr, fan ac offer bach<br>• £70 yr awr<br>• 2 awr<br>• Bob chwe mis | 2 | £140.00 | £280.00 |
| | | | | | **Cyfanswm Cost** | **£280.00** |

| Amlder Fesul Blwyddyn | Amserlen Cynnal a Chadw | Elfen | Sylw | Nifer fesul blwyddyn | Cyfradd | Cost |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bob 30 mlynedd** | **Disodli** | Atgyweirio/disodli unrhyw ddifrod (yn dilyn archwiliad) | Gweler y crynodeb o'r costau | 1 | £8,489.00 | £8,489.00 |
| | | | | | **Cyfanswm Cost** | **£8,489.00** |

| Amlder Fesul Blwyddyn | Swm Cynnal a Chadw Blynyddol | Ffactor NVP ar gyfer Amlder fesul Blwyddyn | Cyfanswm Cost |
|---|---|---|---|
| **6 Mis Cyntaf** | | | £840.00 |
| **Blynyddol** | £280.00 | 66.27403 | £18,556.73 |
| **Bob 30 blynedd** | £8,489.00 | 0.79154842 | £6,719.45 |
| | | **Cyfanswm** | **£26,116.18** |
| | | **Cynllun wrth gefn i ganiatáu ar gyfer atgyweiriadau ad hoc ac ati. Caniatáu 15%** | **£3,917.43** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Swm Gohiriedig** | **£30,033.61** |

| Crynodeb o'r Costau | |
|---|---|
| Uwch/Is Asiant | £350.00 |
| Fforman Cyffredinol | £1,625.00 |
| Gweithiwr | £1,400.00 |
| Uned Lles Bychan | £175.00 |
| Cloddiwr Hunan-yrru 15T | £250.00 |
| Pwmp dŵr | £25.00 |
| Tryc | £100.00 |
| Offer bach | £75.00 |
| Ffens vortok/m | £39.00 |
| Dyfais sgrinio - £200 yr un | £200.00 |
| Fortecs - £2,750 yr un | £2,750.00 |
| Gwaith atgyweirio yn dilyn disodli fortecs - £1000 yr un | £1,000.00 |
| Gwaredu | £500.00 |
| **Cyfanswm** | **£8,489.00** |